rydym yn recriwtio

# ymunwch â'n tîm

Disability Wales
Anabledd Cymru

# cysylltwch
# â tîm

**Anabledd Cymru**
Tŷ Brydon
Bloc B
Parc Busnes Caerffili
Heol Van
Caerffili
CF83 3ED

**T:** 029 2088 7325
**F:** 029 2088 8702
**E:** info@disabilitywales.org
**www.disabilitywales.org**

INVESTORS IN PEOPLE

**Rhif Elusen:** 517391
**Rhif y Cwmni:** 1998621

Derbyniodd Anabledd Cymru arian gan Lywodraeth Cymru

twitter.com/DisabilityWales
facebook.com/Disability Wales
YouTube.com/Disability Wales
flicker.com/Disability Wales

# rhagair

**Diolch am eich diddordeb yn y swyddi sydd gennym ar gael yn Anabledd Cymru (AC) heddiw. Mae'r pecyn hwn yn rhoi mwy o wybodaeth i chi ar sut rydym yn gweithio, a manylion y swyddi a'r bobl y byddwch yn gweithio gyda nhw. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth ar sut i wneud cais.**

AC yw Sefydliad Cenedlaethol Pobl Anabl, sy'n gweithio'n gyd-gynhyrchiol gyda'n haelodau i ddelio gydag ystod eang o rwystrau anabledd mewn cymdeithas. Rydym eisiau gweld pobl anabl yn mwynhau'r un hawliau ag eraill, gan gynnwys mynediad at dai a thrafnidiaeth, cyfleoedd mewn addysg a chyflogaeth a'r gallu i chwarae rhan lawn mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol.

Mae AC yn arloeswr ac ers ein sefydlu ym 1972, mae wedi cyflawni llawer o bethau 'cyntaf', gan gynnwys:

- Cynllun Gwobrau Mynediad i Adeiladau (1979-91) a'r Nodiadau Canllaw Dylunio Mynediad cyntaf erioed (1978)
- Datblygu mudiadau anabledd newydd yn genedlaethol ac yn lleol yn y meysydd chwaraeon, y celfyddydau, pobl ifanc a mynediad (1980au – )
- Y rhaglen gyntaf yng Nghymru i hyfforddi pobl anabl i ddod yn Hyfforddwyr Cydraddoldeb Anabledd (1992)
- Ymgyrchoedd uchel eu proffil ar Fynediad ar y Stryd Fawr, Trosedd Casineb Anabledd, Byw'n Annibynnol a Diwygio Lles (2008- )
- Cyfrannu'n egnïol i ddatblygu Mesur Codi Tâl am Ofal Cymdeithasol 2011
- Ymgyrchu'n llwyddiannus i gael cyflwyno Fframwaith Llywodraeth Cymru ar Weithredu ar Fyw'n Annibynnol (2013)
- Cyfranogiad actif o ran datblygu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)
- Partner yn rhaglen ymchwil gyntaf y byd a arweinir gan bobl anabl (Ymchwil Anabledd mewn Byw'n Annibynnol a Dysgu (DRILL) (2015 hyd heddiw)
- Sefydlu'r cwmni cydweithredol cyntaf i'w arwain gan ddefnyddwyr yn y DU yn cael ei redeg gan ac ar gyfer derbynwyr Taliadau Uniongyrchol (2017)

Mae ein haelodau wrth graidd y sefydliad ac rydym yn darparu’r gwasanaethau a’r cyfleoedd canlynol i gefnogi eu twf:

- Newyddion a gwybodaeth drwy ein gwefan, pecynnau adnoddau, e-newyddion a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol
- Rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau rhanbarthol, cynadleddau a gweithdai i aelodau a rhanddeiliaid ar bynciau’r dydd
- Cyfleoedd hyfforddiant a datblygu i feithrin capasiti
- Cyfleoedd i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chyrff cyhoeddus drwy ymgyrchoedd, ymgynghoriadau a mentrau ymchwil
- Gwasanaeth hyfforddi ac ymgynghori gyda’r nod o hyrwyddo arferion da ymhlith cyflogwyr, darparwyr gwasanaeth a gwneuthurwyr polisi

Fel Mudiad Pobl Anabl ein nod yw arddangos arferion da fel cyflogwr ein hunain. Rydym yn ymdrechu i ddarparu amgylchedd gwaith cwbl gynhwysol sy’n galluogi i staff ffynnu ynghyd â gwneud y mwyaf o’u talentau drwy amrywiol gyfleoedd.

Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn eich cais.

**Rhian Davies**
Prif Weithredwr



# pwy ydym ni

**Anabledd Cymru (AC) yw cymdeithas genedlaethol Mudiadau Pobl Anabl (MPA) sy'n ymdrechu i gyflawni hawliau, cydraddoldeb a bywyd annibynnol i bobl anabl yng Nghymru.**

Mae AC yn hyrwyddo mabwysiadu a gweithredu Model Cymdeithasol o Anabledd, sy'n adnabod mai rhwystrau amgylcheddol, sefydliadol ac agweddol sy'n anablu pobl a rhwystro eu cyfranogiad llawn mewn cymdeithas, ac nid eu cyflwr meddygol neu amhariad.

Mae AC yn sefydliad annibynnol, ddim-er-elw a sefydlwyd ym 1972 sy'n derbyn cyllid grant gan Adran Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru.

Rheolir AC gan Fwrdd Cyfarwyddwyr gwirfoddol yn cynnwys pobl anabl sy'n weithgar mewn sefydliadau anabledd lleol a chenedlaethol ledled Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'n staff yn bobl anabl gyda llawer o flynyddoedd o brofiad yn gweithio mewn capasiti proffesiynol a gwirfoddol ar gyfer amrywiol fudiadau anabledd yng Nghymru a thu hwnt.

Rôl unigryw AC yng Nghymru yw bod yn sefydliad ambarél sy'n hyrwyddo hawliau a chydraddoldeb holl bobl anabl beth bynnag fo eu hamhariad corfforol neu synhwyraidd, anhawster dysgu neu gyflwr iechyd meddwl. Rydym yn cydnabod y bydd gan lawer o bobl anabl hunaniaethau eraill a all arwain at wahaniaethu croestoriadol.

Mae AC yn ymgymryd ag ymgyrchoedd aelodau, ymgynghoriadau, ymchwil a datblygu polisi er mwyn dylanwadu ar ddatblygiad polisi ac arferion y llywodraeth mewn perthynas â phobl anabl. Rydym yn darparu gwybodaeth, hyfforddiant a chymorth i aelodau ledled Cymru drwy'r cyfryngau cymdeithasol ynghyd â chynadleddau, seminarau a digwyddiadau. Mae AC yn adnabod rhwydwaith cryf a ffyniannus o fudiadau pobl anabl fel rhywbeth sy'n hanfodol i gyflawni polisi cenedlaethol effeithiol ac arloesol a chyflawniad gwasanaeth yn lleol.

# ein nodau

## Cenhadaeth

**Ein rôl graidd yw cyflwyno barn a blaenoriaethau aelodau i lywodraeth gyda'r nod o fwydo gwybodaeth i, a dylanwadu ar bolisi.**

- **Amcan Strategol 1:** Dylanwadu ar bolisi a'r sawl sy'n cymryd penderfyniadau ar bob lefel, gan weithredu fel adfocad effeithiol ar gyfer barn, blaenoriaethau a buddiannau ein haelodau
- **Amcan Strategol 2:** Datblygu a chefnogi gwaith mudiadau a reolir gan bobl anabl
- **Amcan Strategol 3:** Arwain a datblygu mudiad effeithiol, cynaliadwy a sicrhau llywodraethu cadarn a chryf

## Gwerthoedd

- Model Cymdeithasol o Anabledd
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol
- Cymdeithas Gynhwysol
- Hunan-benderfynu
- Arwain ar arferion gorau
- Ymroddedig i gyflawni ansawdd

# model cymdeithasol o anabledd

**Mae Anabledd Cymru yn hyrwyddo mabwysiadu a gweithredu Model Cymdeithasol o Anabledd yn ein gwaith a disgwylir i holl aelodau staff ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut i ddefnyddio hyn yn eu maes gweithredu penodol nhw.**

Datblygwyd y Model Cymdeithasol o Anabledd gan bobl anabl ac mae'n gwneud y gwahaniaeth pwysig rhwng 'amhariad' ac 'anabledd', a ddiffinnir fel a ganlyn:

- **Amhariad:** Anaf, salwch neu gyflwr cynhwynol sy'n achosi neu sy'n debygol o achosi effaith hirdymor ar ymddangosiad corfforol a/neu gyfyngiad ar swyddogaeth o fewn yr unigolyn sy'n wahanol i'r cyffredin.

- **Anabledd:** Colli neu gyfyngu cyfleoedd i chwarae rhan mewn cymdeithas ar lefel gyfartal gydag eraill oherwydd rhwystrau cymdeithasol ac amgylcheddol.



Dangosir anabledd fel rhywbeth sy'n cael ei achosi gan 'rwystrau' neu elfennau o sefydliad cymdeithasol nad ydynt yn cymryd unrhyw ystyriaeth neu ychydig o ystyriaeth o bobl sydd ag amhariad. Gwelir bod cymdeithas yn anablu pobl sydd ag amhariad oherwydd bod sut y mae wedi ei sefydlu yn ein rhwystro rhag cymryd rhan mewn bywyd bob dydd. Mae'n dilyn, os yw pobl anabl i allu ymuno â chymdeithas gyffredin, yna mae angen i sut y trefnir cymdeithas newid.

Gall symud ymaith y rhwystrau sy'n allgau (ac anablu) pobl sydd ag amhariad arwain at y newid hwn. Mae tri prif fath o rwystr sy'n wynebu pobl anabl:

- Rhwystrau amgylcheddol: diffyg mynediad i ac o amgylch yr amgylchedd adeiledig gan gynnwys systemau trafnidiaeth
- Rhwystrau agweddol: lle ystyrir bod pobl anabl yn israddol, aneffeithiol, gwan ac agored i niwed
- Rhwystrau sefydliadol: polisïau a gweithdrefnau sy'n rhwystro cyfranogiad llawn pobl anabl o fewn addysg, y gweithle a'r gymuned ehangach

Mae Anabledd Cymru yn ymgyrchu ac yn gweithio i symud ymaith holl rwystrau anablu yng Nghymru, boed yn amgylcheddol, agweddol neu sefydliadol.

I gael rhagor o wybodaeth ar y Model Cymdeithasol a'r Model Meddygol o Anabledd, ewch i **www.disabilitywales.org**

# cyfleoedd cyflogaeth

## Swyddi a ddynodir fel rhai sy'n agored i bobl anabl yn unig

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn caniatáu i bobl anabl gael eu trin yn fwy ffafriol na phobl nad ydynt yn anabl. At hyn, os gall cyflogwr ddangos bod nodwedd warchodedig benodol yn ganolig i swydd arbennig, gall fynnu mai dim ond rhywun sydd â'r nodwedd warchodedig honno sy'n addas ar gyfer y swydd. Byddai hyn yn 'ofyniad galwedigaethol' (www.equalityhumanrights.com).

Trwy ein Bwrdd a'n haelodaeth lawn, mae AC yn sefydliad a redir ac a reolir gan bobl anabl. O ystyried y rhwystrau y mae llawer o bobl anabl yn eu wynebu yn y gweithle, nod AC yw cynnig cyfleoedd gwaith i bobl anabl ble bynnag y bo modd. Mewn rhai achosion, ar ôl adolygiad llawn o swydd wag, rydym yn penderfynu y dylai ond fod yn agored i berson anabl oherwydd ei fod yn ofyniad galwedigaethol.

Mae'r rhain yn cynnwys lle bydd deiliad y swydd:

- yn cynrychioli AC fel Sefydliad Pobl Anabl i grwpiau aelodau a chyrff allanol sy'n ffafrio ein cenhadaeth, nodau ac amcanion a sefydlu partneriaethau a gwasanaethau sy'n ceisio gweithredu y rhain, a/neu

- yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl anabl, fel unigolion a thrwy eu sefydliadau cynrychioladol

Er mwyn cynrychioli AC mewn modd credadwy yn y meysydd hyn a datblygu cynigion sy'n unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd, tybir ei bod yn hanfodol bod deiliad y swydd yn gallu dod at y rôl fel person anabl gyda phrofiad personol o rwystrau anablu, sy'n deall sut dylid delio â'r rhain i gyflawni hawliau, cydraddoldeb ac annibyniaeth pobl anabl.

## A wyf i yn berson anabl?

Diffiniad AC o 'berson anabl' yw un sydd, oherwydd bod ganddynt amhariad corfforol a/neu synhwyraidd, yn wynebu rhwystrau oherwydd ffactorau agweddol, cymdeithasol a/neu amgylcheddol.

Mae AC yn cydnabod bod amrywiol rwystrau anablu o fewn cymdeithas sy'n rhwystro llawer o bobl rhag bod â chyfranogiad llawn mewn addysg, cyflogaeth neu fyw'n annibynnol yn y gymdeithas. Gall y rhwystrau hyn gynnwys mynediad at yr amgylchedd ffisegol, gwybodaeth neu gyfathrebu, diffyg cefnogaeth a hyblygrwydd, neu agweddau ac ystrydebau negyddol. Efallai nad ydych yn eich adnabod eich hun fel person anabl, ond os ydych wedi dod ar draws unrhyw un o'r rhwystrau hyn neu eraill mewn perthynas â chyflwr iechyd hirdymor, anaf neu amhariad cudd, yna rydych yn gymwys i wneud cais.



# lle rydym yn gweithio







**Mae swyddfa gofrestredig AC yn:**
Tŷ Brydon, Bloc B, Parc Busnes Caerffili,
Van Road, Caerffili, CF83 3ED

Mae'r swyddfa ar lawr gwaelod adeilad modern, yn agos at gludiant cyhoeddus gyda maes parcio a ffreutur ar y safle.

## Pryd rydym yn gweithio

Oriau swyddfa safonol 9.00am – 5.00pm gydag egwyl ginio o awr heb dâl

Mae rhai o'n gweithwyr yn gweithio oriau ansafonol – mae gennym nifer o aelodau staff rhan-amser

Mae Anabledd Cymru yn cydnabod pwysigrwydd helpu gweithwyr i gydbwyso eu bywyd gwaith a'u bywyd cartref ac felly mae gennym bolisi gweithio hyblyg, ar gyfer gweithwyr ac ar gyfer y sefydliad, i reoli trefniadau gweithio hyblyg yn iawn.

## Datganiad Cyfle Cyfartal

Mae Anabledd Cymru yn credu bod gan bawb yr hawl i gael eu trin gydag urddas a pharch yn y gwaith. Rydym wedi mabwysiadu polisi cyfle cyfartal sy'n ymrwymo'r sefydliad i arferion gwaith teg, di-duedd a gwrthrychol ac amgylchedd gwaith sy'n rhydd rhag aflonyddiad ac erledigaeth. Mae'n gyfrifoldeb i bob gweithiwr gynorthwyo'r sefydliad i gyflawni'r ymrwymiad hwn.

Oherwydd hyn, mae derbyn a glynu at bolisi cyfle cyfartal y sefydliad yn ffurfio rhan o gontract gwaith pob gweithiwr.

## Mynediad i waith

Mae Mynediad i Waith yn gynllun a weinyddir gan y Ganolfan Byd Gwaith sy'n bodoli i helpu gweithwyr anabl i gyflawni eu potensial yn y gwaith. Gall pobl hunan-atgyfeirio. Mae Mynediad i Waith yn berthnasol i unrhyw swydd a chyflog, boed yn rhan-amser, llawn-amser, parhaol neu dros dro.

Os oes gan weithiwr amhariad, anabledd, cyflwr iechyd neu gyflwr iechyd meddwl sy'n debygol o bara 12 mis neu fwy, gall Mynediad i Waith roi cyngor i'r gweithiwr a'u cyflogwr, a chymorth gyda chostau ychwanegol a all godi oherwydd eu gofynion penodol. Er enghraifft, gall Mynediad i Waith dalu tuag at gostau gweithiwr cymorth neu offer sydd ei angen yn y gwaith. Gall hefyd dalu tuag at gostau teithio i ac o'r gwaith os na all y gweithiwr ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

Gall yr arian dalu am bethau megis:

- addasiadau i'r offer y mae gweithiwr yn ei ddefnyddio
- offer arbennig
- costau teithio i'r gwaith os na all y gweithiwr ddefnyddio cludiant cyhoeddus
- gweithiwr cymorth neu hyfforddwr swydd i helpu'r gweithiwr yn y gweithle
- gwasanaeth cymorth os oes gan y gweithiwr gyflwr iechyd meddwl ac os yw'r gweithiwr yn mynd yn absennol o'r gwaith neu'n ei chael yn anodd gweithio

- cyfathrebwr mewn cyfweliad am swydd
- cost symud offer os oes newid mewn lleoliad neu swydd

## Pan fyddwch yn ymuno

Mae pob aelod staff newydd yn cael cyflwyniad llawn gan eu Rheolwr Llinell a’r tîm, ynghyd â chymorth a datblygiad personol parhaus.

## Cyfnod Prawf

Mae ein swyddi oll yn destun cyfnod prawf cychwynnol. Mae hyn yn amrywio yn unol â hyd a math y contract.








# manteision

Rydym yn cynnig i'n staff amrywiaeth eang o fanteision iechyd, lles, ffordd o fyw ac ariannol i sicrhau ein bod yn cefnogi staff yn llawn pa bynnag oriau maent yn eu gweithio.

Ein nod yw bod y manteision yn apelio i bob aelod staff yn y sefydliad a gobeithio y byddant yn gwneud gweithio gydag Anabledd Cymru yn well fyth!

| **Mantais** | **Llawn-amser** | **Rhan-amser** |
|---|---|---|
| Gwyliau – 25 diwrnod a gwyliau banc a 3 diwrnod i ffwrdd er mwyn cau dros y Nadolig (pro rata ar gyfer staff rhan-amser) + 2 ddiwrnod ychwanegol ar wyliau banc y gwanwyn a'r haf | Ie | Pro-rata |
| Bydd y gweithiwr yn cael ei gofrestru'n awtomatig yng nghynllun pensiwn y Cyflogwr. Cyfraniad Pensiwn AC – 3% | Ie | Os bodlonir gofynion lleiaf |
| Yswiriant Bywyd Cyflogaeth Grŵp Staff tra'n gweithio gydag Anabledd Cymru | Ie | Ie |
| Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus tra'n gweithio gydag AC | Ie | Ie |
| Prawf llygaid blynyddol am ddim a chyfraniad tuag at sbectol | Ie | Ie |
| Rhaglen Cymorth Gweithwyr | Ie | Ie |
| Cynllun Talebau Gofal Plant | Ie | Ie |
| Absenoldeb Tosturiol ac Absenoldeb mewn Argyfwng gyda Thâl yn unol â pholisi AC | Ie | Ie |
| Te a Choffi am ddim yn y swyddfa | Ie | Ie |
| Cegin sy'n cynnwys oergell, microdon, peiriant tost a pheiriant dŵr | | |
| Dosbarthiadau staff i'r swyddfa | Ie | Ie |
| Parcio am ddim yn Swyddfa AC | Ie | Ie |

# sut i wneud cais

Gallwch naill ai deipio neu ysgrifennu mewn inc du i gwblhau eich ffurflen gais. Rydym yn argymell yn gryf eich bod:

- yn cwblhau pob adran o'r ffurflen gais
- yn astudio'r Swydd-ddisgrifiad a'r Manyleb Person yn ofalus
- yn cynnwys enghreifftiau perthnasol i ddangos eich gwybodaeth, sgiliau, profiad a gwerthoedd
- datgan eich cyfraniad personol chi i waith a gyflawnwyd

Sicrhau eich bod yn prawf-ddarllen eich cais i weld os oes unrhyw gamgymeriadau cyn anfon y cais.

### Manylion Personol ac Argaeledd

Cwblhewch yr adran hon gan sicrhau bod yr holl fanylion cyswllt yn gywir.

### Addysg a Chymwysterau

Sicrhau eich bod yn cynnwys yr holl gymwysterau perthnasol a'r lefel a gafwyd.

### Sgiliau TG

Nodwch y manylion yn unol â'r hyn y gofynnir amdano.

### Hyfforddiant

Nodwch fanylion unrhyw gyrsiau hyfforddi rydych wedi eu cwblhau.

### Cyrff Proffesiynol

Nodwch os ydych yn aelod o unrhyw gyrff proffesiynol, gan nodi lefel eich aelodaeth a'r cymhwyster.

### Cymhwyster i Weithio yn y Deyrnas Unedig

Cwblhewch yn unol â'r cyfarwyddiadau. Nid ydym ar hyn o bryd yn gallu cefnogi ceisiadau fisa.

### Hanes Cyflogaeth a Chyflog

Dechreuwch gyda'ch cyflogwr presennol neu ddiweddaraf a rhoi disgrifiad cryno o'ch prif gyfrifoldebau yn y rôl honno. Nid oes yn rhaid i'r disgrifiadau hyn fod yn hir iawn gan y byddwch yn cael cyfle i ymhelaethu ar rai agweddau yn yr adran

Datganiad o Addasrwydd.

Rhestrwch pob swydd flaenorol a sicrhau eich bod yn esbonio unrhyw fylchau yn eich hanes cyflogaeth.

## Datganiad o Addasrwydd

Amlinellwch unrhyw sgiliau, profiad a hyfforddiant perthnasol sy'n briodol ar gyfer y swydd hon.

Gan ein bod yn llunio rhestr fer yn unol â'r meini prawf, dylech gysylltu eich cais gyda'r gofynion a nodir yn y manyleb person (gan roddi enghreifftiau). Deliwch gyda phob adran yn ddigon manwl ac osgoi gadael unrhyw le gwag. Os nad ydych yn cwblhau pob adran, mae hyn yn debygol o effeithio eich siawns o gael eich dodi ar y rhestr fer.

Ysgrifennwch baragraffau byrion sy'n dangos sut mae eich profiad yn bodloni'r meini prawf.

## Canolwyr

Dylai eich canolwyr fod yn reolwr llinell presennol neu flaenorol, tiwtor academaidd neu reolwr gwirfoddol os yn briodol. Peidiwch â rhoi manylion teulu, ffrindiau neu gydweithwyr.

Rydym yn cadw'r hawl i ofyn am gael cysylltu gydag unrhyw gyflogwr blaenorol os tybir bod angen gwneud hynny.

Byddwn ond yn cysylltu gyda chanolwyr ar ôl cynnig y swydd. Byddwn yn cadarnhau hyn gyda chi cyn cysylltu â'ch canolwyr. Os oes problem gyda hyn, yna cysylltwch â ni os gwelwch yn dda.

## Ffurflen Cyfle Cyfartal

Gallwch fod yn sicr nad yw hyn yn rhan o'r broses o wneud cais a bydd yn cael ei thynnu cyn y broses o lunio rhestr fer.

Fodd bynnag, mae'r data a gawn o'r ffurflenni hyn yn cael ei ddadansoddi oherwydd ein hymrwymiad i gyfle cyfartal a bydd yr wybodaeth yn ein helpu ni i lywio ein strategaethau recriwtio.

# cyfleoedd gwaith